Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 21/10

## 28 Mai 2021

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwyr a Rheolwyr Ystadau/Cyfleusterau

**Er gwybodaeth yn unig:**
Cyfarwyddwyr Cyllid

Copi i'r canlynol:
Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Annwyl Gydweithiwr,

## AILBRISIAD YSTAD GIG CYMRU 2022

Pwrpas yr Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol hwn yw eich hysbysu bod disgwyl i'r prisiad pum mlynedd nesaf o ystad GIG Cymru ddigwydd yn 2022 (1 Ebrill 2022 yw dyddiad y prisiad).

Amcan yr ymarfer hwn yw cael prisiadau o'r asedau ystadau cyfalaf sydd gan GIG Cymru. O ran defnyddio'r fethodoleg brisio fwyaf priodol, y gofyniad cyfredol yw prisio ystad y GIG bob pum mlynedd wedi'i ategu gan fynegeio blynyddol.

Bydd yr asedau'n cynnwys yr holl dir ac adeiladau (gan gynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu); asedau a roddwyd ac a roddwyd yn rhannol ynghyd ag asedau a ddelir ar y cyd â phartneriaid Menter Cyllid Preifat (PFI), rhai eiddo ar brydles (gan gynnwys y rhai a feddiannir neu a osodir ar sail rhent mewn enw/hedyn pupur) ac offer/cyfarpar sefydlog wedi'u dosbarthu fel asedau bywyd a aseswyd.

Yn yr un modd ag ailbrisiadau blaenorol, bydd pob buddiant eiddo yn cael ei brisio ar sail adeilad/bloc unigol. Bydd angen cytuno ar nodi adeiladau/blociau gyda sefydliad y GIG sydd â deiliadaeth a gallai fod yn wahanol i ymarferion prisio blaenorol.

Cyn bo hir, bydd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn cychwyn ar y broses gaffael i benodi'r prisiwr i gyflawni'r gwaith prisio hwn, gyda'r nod o benodi'r prisiwr yr hydref hwn er mwyn galluogi cychwyn yr ymarfer yn gynnar. Yn ôl yr amserlenni, cynhyrchir drafft

cyntaf o'r adroddiad prisio erbyn dechrau Haf 2022 a bydd yr adroddiad prisio terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022.

O ystyried yr amserlen gymharol fyr i baratoi ar gyfer y broses gaffael, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd paratoi a darparu'r rhestr asedau gyfredol ofynnol i Wasanaethau Ystadau Arbenigol i'w chynnwys yn y ddogfennaeth gaffael erbyn 18 Mehefin 2021. Byddai hefyd yn fuddiol pe gallai sefydliadau nodi pa staff fydd yn cynorthwyo'r prisiwr gyda'r ailbrisio.

Darparwch yr wybodaeth hon i: Clive Ball, Pennaeth Eiddo ar 029 2090 4106 e-bost Clive.Ball@wales.nhs.co.uk, Andrew Nash, Prif Syrfëwr Eiddo ar 029 2090 4111 e-bost Andrew.Nash@wales.nhs.uk a Sian Cornwell-Shaw, Syrfëwr Eiddo ar 029 2090 4115 e-bost Sian.Cornwell-Shaw@Wales.nhs.uk. Yn y cyfamser, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag unrhyw un o'r uchod.

Yr eiddoch yn gywir,



**NH Davies BSc (Anrh), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Trydydd Llawr, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UB**

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 21/10

## 28 May 2021

**For action by:**
Chief Executives, NHS Health Boards and Trusts
Estates/Facilities Directors and Managers

**For information only:**
Directors of Finance

Copy to:
Head of Capital, Estates and Facilities, Department of Health and Social Care, Welsh Government

Dear Colleague

## 2022 NHS WALES ESTATE REVALUATION

This SESN is to inform you that the next quinquennial valuation of the NHS Wales estate is due to take place in 2022 (with a valuation date of 1 April 2022).

The objective of this exercise is to obtain valuations of the capital estates assets held by the NHS in Wales. In terms of applying the most appropriate valuation methodology, the current requirement is for a quinquennial valuation of the NHS estate supplemented by annual indexation.

The assets will include all land and building (including assets under construction); donated and part donated assets together with assets held in conjunction with PFI partners, certain leased properties (including those occupied or let on a nominal/peppercorn rent basis) and fixed plant/equipment classified as assessed life assets.

As with previous revaluations, each property interest will be valued on an individual building/block basis. The identification of buildings/blocks will need to be agreed with the holding NHS organisation and may differ from previous valuation exercises.

Colleagues in Welsh Government will shortly be commencing the procurement process to appoint the Valuer to undertake this valuation work with the aim of the Valuer being appointed this autumn so as to enable an early start to the exercise. The time frames for producing the first draft of the valuation report will be in early Summer 2022 with the final

valuation report being issued in September 2022.

Given the relatively short time frame to prepare for the procurement, it would assist if the required up to date asset list can be prepared and provided to SES for inclusion in the procurement documentation by the 18 June 2021. It would also be beneficial if organisations could identify which staff will assist the Valuer with the revaluation.

Please can this information be provided to: Clive Ball, Head of Property on 029 2090 4106 e-mail Clive.Ball@wales.nhs.co.uk, Andrew Nash, Principal Property Surveyor on 029 2090 4111 e-mail Andrew.Nash@wales.nhs.uk and Sian Cornwell-Shaw, Property Surveyor on 029 2090 4115 e-mail Sian.Cornwell-Shaw@Wales.nhs.uk. In the meantime, should you require further information or have any queries please contact any of the above.

Yours sincerely,



**NH Davies BSc (Hons), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Director Specialist Estates Services**

**NWSSP Specialist Estates Services, 3rd Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**